# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mercher, 15 Ionawr 2003

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**2.00pm**
**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 1 & 2 yn ol.

**2.22pm**
**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf.  Tynnwyd cwestiwn 4 yn ol.

**2.46pm**
Gwnaeth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad ar gyflwyno cynlluniau busnes ar gyfer Awdurdodau Tai Lleol.

**2.55pm**
**Dadl ar Orchymyn Diwygio Rheoliadol: Deddf Landlord a Thenant 1954**
*Ni gyflwynwyd cynnig.*

**2.55pm**
**Dadl ar Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru Dwyieithog: "Iaith Pawb."**
**NDM1289 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynnal a hyrwyddo’r iaith Gymraeg fel y’i nodir yn *Iaith Pawb*, y cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog.

*Gellir dod o hyd i’r ddogfen drwy glicio ar un o’r isod:*
http://www.wales.gov.uk/subiculture/content/action-plan-e.pdf
http://www.cymru.gov.uk/subiculture/content/action-plan-w.pdf

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:*

**(1),(2),(5),(6),(7),(8),(9),(10) + (11)**
**(3)+(4)**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ar ôl 'Yn croesawu strategaeth', ychwanegu "ddrafft"

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ar ôl "Cymru ddwyieithog" ar ddiwedd y cynnig, ychwanegu "ac yn galw ar y Llywodraeth i gyhoeddi cynllun gweithredu manwl ac amserlen i gyd-fynd â'r strategaeth o fewn chwe wythnos"

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**
Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod ymrwymiad Llywodraethau Ceidwadol blaenorol i atal dirywiad yr iaith.

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**
Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn hyrwyddo'r ffaith ei bod yn bwysig i rieni sy'n siarad Cymraeg annog eu plant i ddefnyddio'r iaith.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn mynegi pryder am y lefelau cyllido ar gyfer yr agweddau ar y strategaeth sy'n ymwneud ag addysg".

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod arian clustnodedig yn cael ei roi i Fudiad Ysgolion Meithrin er mwyn denu a chadw staff cylchoedd meithrin gyda'r nod o hyrwyddo datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg."

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod sicrhau twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn elfen hanfodol wrth greu Cymru ddwyieithog ac yn cydnabod yr angen am fframwaith strategol cenedlaethol i'r perwyl hwn.

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod diffiniadau cenedlaethol ar gyfer addysg Gymraeg a dwyieithog yn cael eu sefydlu a'u rhoi ar waith"

**9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru );**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn nodi'r ymrwymiad yn 'Ein Hiaith : Ei Dyfodol' i sicrhau bod hawl disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig i gael mynediad i ddarpariaeth i ddiwallu eu hanghenion, yn eu dewis iaith ar sail gyfartal ledled Cymru yn cael ei chydnabod, ac i sicrhau y gweithredir ar yr hawl honno, ac yn galw ar y Llywodraeth i roi hyn ar waith yn ei strategaeth derfynol".

**10. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Llywodraeth i gynnwys yn ei strategaeth ymrwymiad i dwf mewn addysg cyfrwng Cymraeg bellach ac uwch.

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu mynediad i dai fforddiadwy mewn ardaloedd lle defnyddir y Gymraeg fel iaith gyntaf naturiol y gymuned ac yn galw ar y Llywodraeth i weithredu polisïau i gyflawni hyn.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:**
O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 49.
**Gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:**
O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 49.
**Gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:**
O blaid 36; Ymatal 0; Yn erbyn 13; Cyfanswm 49.
**Derbyniwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40.
**Gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 50.
**Gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 6:**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 48.
**Gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 7:**
O blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 37; Cyfanswm 50.
**Gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 8:**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49.
**Gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 9:**
O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 49.
**Gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 10:**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 50.
**Gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 11:**
O blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 37; Cyfanswm 50.
**Gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i diwygio:**
O blaid 37; Ymatal 13; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50.
**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

**Eitem 6**
**Dadl fer - NDM1290 David Ian Jones (Gogledd Cymru); Clafdai: yr angen am sefydlogrwydd ariannol**

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.53pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 21af Rhagfyr 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a osodwyd ar 14 Ionawr 2003

Cyfrifon Blynyddol Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2002 - LD1796
Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD1798
Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 11) (Cymru) 2003 - LD1799
Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 10) a Darpariaethau Trosiannol (Cymru) 2003 - LD1800
Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 14) Cymru 2002 - LD1801
Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 - LD1802

### Adroddiadau'r Pwyllgor Deddfau a osodwyd ar 14 Ionawr 2003

LC594 - Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD1803
LC595 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD1804
LC596 - Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD1805
LC597 - Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Diwygio)(Cymru) 2003 - LD1086
LC598 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) a (Taliadau Deintyddol) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD1807
LC599 - Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003 - LD1808
LC600 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) a (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD1809
LC601 - Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2002 - LD1810
LC602 - Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) - LD1811
LC603 - Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion o Drydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) Rheoliadau 2002 - LD1812
LC604 - Rheoliadau Tatws sy’n Deillio o’r Aifft (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002 - LD1813